

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 79(2)(d) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2025 Rhif (Cy.)

TRETH TRAFODIADAU TIR,
CYMRU

Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir
(Addasu Rhyddhad ar gyfer
Safleoedd Treth Arbennig) (Cymru)
2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 i ddiwygio Atodlen 21A (rhyddhad ar gyfer safleoedd treth arbennig) sy'n darparu ar gyfer rhyddhad rhag treth trafodiadau tir ar gyfer trafodiadau cymhwysol o dir mewn safle treth arbennig.

Mae rheoliad 2 yn diwygio paragraff 2 o Atodlen 21A i ymestyn y rhyddhad ar gyfer safleoedd treth arbennig i safle treth arbennig ychwanegol a pharagraff 5 i gynnwys y cyfnod rhyddhad ar gyfer y safle treth arbennig newydd hwnnw.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Ionawr 2025.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 79(2)(d) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2025 Rhif (Cy.)

**TRETH TRAFODIADAU TIR,
CYMRU**

**Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir
(Addasu Rhyddhad ar gyfer
Safleoedd Treth Arbennig) (Cymru)
2025**

Gwnaed

Yn dod i rym

23 Ionawr 2025

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 30(6) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 79(2)(d) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Ionawr 2025.

Addasu rhyddhad ar gyfer safleoedd treth arbennig

2.—(1) Mae Atodlen 21A i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi

(1) 2017 dccc 1.

Datganoledig (Cymru) 2017 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 2 (ystyr safle treth arbennig) rhodder—

“2. Yn yr Atodlen hon, ystyr “safle treth arbennig” yw’r ardaloedd a ddynodir yn ardaloedd arbennig gan—

- (a) Rheoliadau Dynodi Safleoedd Treth Arbennig (Porthladd Rhydd Celtaidd) 2024 (O.S. 2024/1035) fel y’u gwnaed ar 16 Hydref 2024;
- (b) Rheoliadau Dynodi Safleoedd Treth Arbennig (Porthladd Rhydd Ynys Môn) 2024 (O.S. 2024/1286) fel y’u gwnaed ar 4 Rhagfyr 2024.”

(3) Ym mharagraff 5 (ystyr cyfnod rhyddhad)—

- (a) daw’r geiriau “yw’r cyfnod sy’n dechrau â 26 Tachwedd 2024 ac sy’n dod i ben â 30 Medi 2029.” yn is-baragraff (a);
- (b) yn is-baragraff (a), ar y dechrau mewnosoder “i’r graddau y mae’r cyfeiriad yn ymwneud â’r safle treth arbennig a grybwyllir ym mharagraff 2(a);”;
- (c) ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—
 - “(b) i’r graddau y mae’r cyfeiriad yn ymwneud â’r safle treth arbennig a grybwyllir ym mharagraff 2(b), yw’r cyfnod sy’n dechrau â 23 Ionawr 2025 ac sy’n dod i ben â 30 Medi 2029.”

Enw

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad